



Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre,
nos Fawrth, 15 Mai 2018 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room
on Tuesday, 15 May 2018 at 6.00pm.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors Shan Williams (*yn y gadair/in the chair*), Clive Davies, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Richard Jones (*cyrraedd/arrived 6.25pm*), Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips.

Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyngh./Cllrs John Adams-Lewis (*ar daith i Brioude/Brioude visit*), Graham Evans (*triniaeth wedi damwain/treatment following accident*).

Croeso'r Cadeirydd / Chair's welcome

Yn absenoldeb anorfod y Maer, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Faer, y Cyng. Shan Williams. Croesawodd bawb yn cynnwys y siaradwr gwadd, Mr Jac Davies, i'r cyfarfod a gwahoddwyd ef i roi ei gyflwyniad.

In the unavoidable absence of the Mayor, the Deputy Mayor chaired the meeting and welcomed all including the guest speaker, Mr Jac Davies. He was duly invited to give his presentation.

Cyflwyniad / Presentation:

Gan Mr Jac Davies, Cyfarwyddwr Castell Aberteifi.

By Jac Davies, Director, Cardigan Castle.

Rhoddodd Mr Davies ei gyflwyniad yn dilyn ei gyfnod o wyth mis yn y swydd. Gwelwyd ailstrwythuro gweinyddiaeth y busnes yn ystod y cyfnod hwn. Trafodwyd cryfderau'r buses megis gwasanaeth gwyliau 4-seren, pecynnau priodas a gweini bwyd o safon tan oruchwyliaeth y prif gogydd, Tom Holden. Mae'r fynedfa newydd wedi ei hagor ers mis Mawrth ac mae'r arwyddion hefyd yn wellhad; addaswyd y stablau i gynyddu'r cyfleusterau aros ar y safle. Ar hyn o bryd mae'r materion marchnata yng ngofal Colin Slater (Caerdydd). Cynhelir arddangosfa ym mis Awst o replica 3D o'r Gadair Ddu sydd yn "Yr Ysgwrn", Trawsfynydd, cartref y Prifardd Hedd Wyn, y milwr a laddwyd ym mrwydr Passchendaele yng Ngorffennaf 1917. Cynhelir digwyddiadau'r dyfodol gyda phwyslais ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant; cynhelir cyngerdd i gloi Gŵyl Fawr Aberteifi ar y safle ar nos Sul, 1af Gorffennaf.

Aethpwyd ati i ofyn cwestiynau i Mr Davies. Sicrahodd bod y materion i'r anabl wedi eu datrys. Mae'r bwriad i ailgynllunio Gardd Brioude yn mynd yn ei flaen gyda'r brydles wedi ei throsglwyddo i'r Castell. Nid yw'r busnes ar y pryd yn hunan-gynhaliol a bydd y deunaw mis nesaf yn dyngedfennol. Nid oes grantiau bellach ar gael, ond gyda syniadau newydd i'r dyfodol, gall ffynonellau eraill ddod i'r golwg.

Mr Davies gave his presentation following his first 8 months in office. This period has experienced business restructuring within the Castle administration. The commercial strengths were being explored including the introduction of 4-star service accommodation, wedding packages and catering under the head chef, Tom Holden. The new entrance has been completed since March with new signage an additional improvement; the stables have been converted to increase the accommodation facilities on site. Marketing procedures are presently contracted to Colin Slater (Cardiff). An exhibition of a 3D replica of the Black Chair displayed at "Yr Ysgwrn", Trawsfynydd, the home of the famous Welsh poet Hedd Wyn who was killed in action at Passchendaele in July 1917, will be put on view during August. Future events will focus on the Welsh culture and language; the Gŵyl Fawr Aberteifi closing concert will be held on 1st July.

Mr Davies duly responded to questions. Disabled issues have been resolved. The business presently is not quite sustainable, with the next 18 months considered crucial to break even. The Brioude Garden will be regenerated with a lease offered to the Castle to enable the necessary development to take place. Grants to sustain the Castle are not presently available. New ideas for the future are anticipated to attract further grant aid.

Cynllunio / Planning

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfôn sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion. Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Observations
A180429	27 Heol Helyg	<i>Codi estyniad ystafell gegin/ystafell fwyta, ailagor agoriad presennol mewn garej a gosod drysau dwbl.</i> Erection of kitchen/dining room extension, re-open blocked existing opening in garage and install double doors.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A180440	Rosario Hall, Aberystwyth Road	<i>Amrywio amod 3 o ganiatâd cynllunio A130465 (Dyluniad Diwygiedig).</i> Variation of condition 3 of planning permission A130465 (Amended Design).	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Playing Field

Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl atebion i argymhellion diweddaraf y cyngor i symud ymlaen ag arwyddo'r prydlesau i'r ddau glwb.

The clerk stated that he was awaiting a response to the council's recommendations regarding the leases to the two clubs.

Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

- (a) **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Ymgynghoriad Cyhoeddus (19 Ebrill–12 Gorffennaf 2018) "Hywel Dda – Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd". Holiadur yr Ymgynghoriad.**
Hywel Dda University Health Board: Public Consultation (19 April–12 July 2018)
"Hywel Dda – Our Big NHS Changes". Consultation Questionnaire.

Dyma'r tri chynnig:

- Cynnig A:** Ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio newydd rhwng Arberth a Sanclêr. Ysbytai cymunedol yng Nglangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg. Ysbyty cyffredinol yn Aberystwyth ar safle Ysbyty Bronglais.
- Cynnig B:** Ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio newydd rhwng Arberth a Sanclêr. Ysbytai cymunedol yng Nglangwili a Llwynhelyg. Ysbytai cyffredinol yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli ac yn Aberystwyth ar safle Ysbyty Bronglais
- Cynnig C:** Ysbyty gofal brys newydd rhwng Arberth a Sanclêr. Ysbyty gofal wedi'i gynllunio ar safle Glangwili. Ysbytai cyffredinol yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli ac yn Aberystwyth ar safle Ysbyty Bronglais.

The three proposals are:

- Proposal A: A new urgent care and planned hospital between Narberth and St Clears. Community hospitals in Glangwili, Prince Philip Hospital, Llanelli and Withybush. A general hospital in Aberystwyth on the Bronglais Hospital site.
- Proposal B: A new urgent care and planned care hospital between Narberth and St Clears. Community hospitals in Glangwili and Withybush. General hospitals at Prince Philip Hospital in Llanelli and Aberystwyth on the Bronglais Hospital site.
- Proposal C: A new urgent care hospital between Narberth and St Clears. A planned care hospital on the Glangwili site. A community hospital in Withybush. General hospitals at Prince Philip Hospital in Llanelli and Aberystwyth on the Bronglais Hospital site.

Dosbarthwyd yr holiaduron i aelodau yn y cyfarfod.

The questionnaires were distributed to members at the meeting.

Rhagor o wybodaeth / More information: www.hywelddahb.wales.nhs.uk/Hddchange.

Awgrymwyd bod y cyngor yn gofyn i'r Bwrdd Iechyd am ganllawiau clir ynglŷn ag apwyntiadau i weld arbenigwyr, ayyb, megis amserau i gleifion sy'n teithio o bellter.

It was recommended that the council requests the Health Board to supply directives regarding the structuring of appointments, etc., such as times for patients travelling from afar.

Carnifal Aberteifi / Cardigan Carnival

Carnifal Aberteifi (Asedau Cyngor Tref Aberteifi): Cwpan arian, clogwyni'r frenhines, sashis, tarian, tiarâu.

Cardigan Carnival (*Cardigan Town Council assets*): Silver cup, queen's cloaks, sashes, shield, tiaras.

Daeth yr eitemau uchod i'r golwg yn swyddfa'r cyngor. Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies bod y cyngor yn awgrymu eu bod yn cael eu trosglwyddo i ofal Pwyllgor Carnifal Aberteifi; eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Marilyn Farmer.

The above items have been uncovered in the council office. Cllr Clive Davies proposed that a recommendation be made to council to transfer the items to the care of the Cardigan Carnival Committee; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

Bydd y clerc yn tynnu lluniau ac yn cofrestru'r eitemau cyn eu trosglwyddo.

The clerk will photograph and register the items before transfer.

Gwahoddiadau i'r Maer / Invitations to the Mayor

Dydd Sadwrn, 30 Mehefin—Dydd y Lluoedd Arfog, Eglwys y Santes Fair am 2.30yp.

Saturday, 30 June—Armed Forces Day at St Mary's Church at 2.30pm.

Er gwybodaeth / For information

Prynhawn Sul, 20 Mai—Gwasanaeth Dinesig y Maer yng Nghapel y Tabernacl am 2.00yp.

Sunday, 20 May—Mayor's Civic Service at Tabernacl Chapel at 2.00pm.

Bore Sadwrn, 9 Mehefin—Bore Coffi: Cronfa'r Maer yn Neuadd y Dref.

Saturday, 9 June—Coffee Morning: Mayor's Fund in the Guildhall.

Dydd Sadwrn, 30 Mehefin—Dydd y Lluoedd Arfog, Eglwys y Santes Fair am 2.30yp.

Saturday, 30 June—Armed Forces Day at St Mary's Church at 2.30pm.

Dydd Sadwrn, Awst 4—Sioe Amaethyddol Aberteifi ar Gaeau Briscwm.

Saturday, 4 August—Cardigan Agricultural Show on Briscwm Fields.

Dydd Sadwrn, Awst 11—Carnifal Aberteifi.

Saturday, 11 August—Cardigan Carnival.

Dydd Sadwrn, 18 Awst—Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi.

Saturday, 18 August—Cardigan River & Food Festival.

Wythnos Carnifal Aberteifi / Cardigan Carnival Week

20/7/18 Dewis Brenhines y Carnifal / Selection of Carnival Queen, Pwll Nofio, 7.30pm

4/8/18 Nodwch y Gwall / Spot the Error (fffenestri siopau/shop windows)

4/8/18 "It's a Knockout"

5/8/18 Helfa Drysor ar Droed / Walking Treasure Hunt, 2.00pm (Grosvenor)

6/8/18 Bingo, Gorffwysfa'r Pysgotwr / Fisherman's Rest, 7.30pm

7/8/18 Picnic Tedi Bêr / Teddy Bear's Picnic, Gerddi Victoria Gardens, 12.00-2.00pm

7/8/18 Helfa Drysor mewn Ceir / Car Treasure Hunt, Mart Aberteifi, 6.00-7.30pm

8/8/18 Chwaraeon i Blant / Kids Sports Day, King George 5th Playing Field, 2.00pm

9/8/18 Cwis / Quiz, Crwst, 7.30pm

10/8/18 Ras Bareli drwy'r dref / Barrel Race in town, 6.00pm.

11/8/18 Carnifal Aberteifi / Cardigan Carnival, Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Playing Field